

Bwletin Awdurdod S4C
- Cyfarfod 278 – 25 Mai 2005,
- S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 25 Mai 2005.

Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

Adroddwyd ar gyfarfod y Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth a chytunodd yr Awdurdod i ehangu cylch gorchwyl y pwyllgor: i gynnwys adolygiadau deddf rhyddid gwybodaeth a chyfeiriadau o'r Grwp Monitro.

SDN - Gwerthiant

Trafodwyd y ffyrdd gorau o fuddsoddi'r elw o werthiant diweddar SDN. Penderfynwyd i fuddsoddi hefo rheolwr cyllid [‘fund manager’] er mwyn sicrhau gwerth gorau a chynnal y cynllun 10 mlynedd.

BBC – Adolygiad Siarter

Trafodwyd a chymeradwywyd ymateb S4C i'r Papur Gwyrdd. Nodwyd bod yr ymateb yn canolbwyntio ar osod allan safbwynt S4C ar y cwestiynau a ofynnwyd gan DCMS sef: lefel y cyfraniad; beincnod o werth ariannol yn hytrach nag oriau o raglenni; cynaliadwyaeth a phenderfyniadau ar gynnwys.

Tendr Datblygu Rhaglenni

Nodwyd fod y fframwaith a gymeradwywyd gan yr Awdurdod wedi ei weithredu yn drylwyr. Nodwyd bod y sector wedi ymateb yn dda i'r her gyda 12 grŵp wedi gwahodd i gyfweiliadau ac wedi amlygu adeg gyffrous yn y sector. Mi fydd cynigion yn amodol ar gytundeb yn cael eu cylchredeg i'r ymgeiswyr llwyddiannus yn yr wythnos nesaf.

Nawdd S4C

Cymeradwywyd yr argymhellion ar y Nawdd canlynol:

- IWA
- Ffwrwm
- Showcomotion Children's Media Conference

Cynllun Corfforaethol 2004

Cymeradwywyd yr adroddiad monitro ar gyfer 2004 (a oedd yn dilyn yr archwiliad). Cytunwyd i gyhoeddi'r Cynllun Monitro ar y we.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Rhaglenni/Cynnwys
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad a Chofnodion Cyfarfod y Grŵp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 10 Mehefin 2005
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Adran y Wasg
- Cinio hefo Bwrdd Cynnwys Ofcom

Cyfarfod 278b – 27 Mai 2005

Gwesty'r Jury's, Caerdydd

Mewn cyfarfod arbennig o'r Awdurdod cytunwyd i gynnig swydd Prif Weithredwr S4C i Iona Jones.